# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Bethan Evans**

**Pwllheli**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Iau, 17 Ionawr 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Bethan Evans yn rhedeg gwasanaeth gwarchod plant o'i chartref ger Pwllheli, Gwynedd ac mae wedi'i chofrestru i ofalu am hyd at 10 plentyn o dan 12 oed. Mae'n cyflogi ei merch fel ei chynorthwyydd. Mae ei gwasanaeth ar agor rhwng 08.00 a 17.30 o ddydd Llun i ddydd Gwener, ond mae'r oriau yn hyblyg ambell waith er mwyn diwallu anghenion y rhieni. Nid yw'r gwarchodwr plant yn darparu Cynnig Rhagweithiol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg. Mae'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd yn siarad Cymraeg a Saesneg, sy'n golygu mai Cymraeg yw'r iaith a gaiff ei hyrwyddo.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn mwynhau eu hamser gyda'r gwarchodwr plant ac mae'n eu hadnabod yn dda. Mae'r amgylchedd croesawgar yn golygu bod y plant yn setlo'n gyflym i chwarae ac yn llwyddo i ymlacio'n gyflym. Y tu allan yn yr ardd amgaeedig a thrwy fynd am dro yn rheolaidd, gall y plant ddarganfod y byd o'u hamgylch. Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl a'i chyfrifoldebau ar y cyfan ac mae ganddi gydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r gwarchodwr plant wneud rhai gwelliannau er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau'n llawn.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r gwelliannau'n cynnwys:

- Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, ac
- roedd adnoddau newydd er mwyn i'r plant fanteisio ar eu chwarae a'u dysgu wedi'u prynu.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwelsom nad oedd y gwasanaeth yn bodloni gofynion cyfreithiol, am nad oedd y gwarchodwr plant yn glynu at y nifer o blant dan 5 oed y mae modd iddi ofalu amdanynt nac yn cydymffurfio â'i datganiad o ddiben. Yn ogystal, rhaid cwblhau'r holl wiriadau ar gyfer y cynorthwyydd ac mae angen cynnwys rhagor o wybodaeth yn y polisi cwynion. Gwelsom nad oedd y rhain yn effeithio ar ofal y plant a thynnwyd sylw'r gwarchodwr plant atynt er mwyn ymdrin â nhw.

Gwnaed argymhellion i wella'r gwasanaeth o ran gofal a datblygu, yr amgylchedd, ac arwain a rheoli.

# 1.Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn gwneud eu dewisiadau eu hunain, yn rhyngweithio'n dda â'r gwarchodwr plant a chânt gyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth. Maent wedi setlo, yn mwynhau eu gweithgareddau ac yn dysgu gwahanol sgiliau drwy chwarae.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn barod i leisio barn a gwrandewir arnynt.

Gwnaeth pob plentyn ddewis beth roeddent am ei wneud, ac roedd y plant hŷn yn rhydd i symud o gwmpas a dewis eitem i chwarae gyda hi. Roedd y plant iau yn cyfleu ei ddewisiadau drwy ystumiau a siarad babi, a rhoddir yr hyn roeddent am ei gael iddynt ar unwaith. Cyfrannodd y plant at syniadau. Er enghraifft, pan roeddent yn gallu dewis pa weithgaredd pen bwrdd yr hoffent gymryd rhan ynddo, gwnaethant i gyd ddewis i chwarae gêm. Roedd y gwarchodwr plant yn gwrando ar geisiadau'r plant ac roeddent i gyd yn eistedd o amgylch y bwrdd yn hapus i chwarae.

Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus ac yn gwybod bod yr hyn a ddywedant yn cael ei ddeall a'i barchu.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi setlo ac yn teimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Roedd y plant wedi setlo'n dda, wedi datblygu ymdeimlad o berthyn a gwelsom eu bod yn dangos hoffter gwirioneddol tuag at y gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd. Roedd y plant yn mwynhau gofal a oedd yn hamddenol ac yn parchu eu hanghenion. Er enghraifft, roeddent yn eistedd ar ben-glin y gwarchodwr plant a oedd yn eu cysuro pan roeddent yn teimlo'n flinedig, a digon o sgyrsiau brwd yn cael eu clywed. Roedd y plant yn meithrin cyfeillgarwch ac yn chwarae gyda'i gilydd yn hapus. Roeddent yn teimlo'n ddiogel ac roeddent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac yn gwybod, er enghraifft, fod angen iddynt i gyd olchi eu hwynebau a'u dwylo ar ôl bwyta eu cinio, cyn parhau i chwarae.

Caiff llesiant y plant ei ategu gan y cydberthnasau cadarnhaol sydd ganddynt â'i gilydd a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu i reoli eu rhyngweithio'n gadarnhaol.

Roedd y plant yn gwrtais ac yn ymarfer moesau da. Roeddent yn rhyngweithio'n dda drwy gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau a mwynhau cwmni ei gilydd. Gwelsom fod y plant yn ymddwyn yn garedig tuag at ei gilydd, er enghraifft yn rhannu eitemau chwarae ac yn rhoi cwtsh i'r plant iau. Gwnaethant gydweithio a helpu i dacluso pan ofynnwyd iddynt wneud hynny, a gwenu pan gawsant eu canmol.

Mae'r plant yn dysgu sut i ymddwyn yn gymdeithasol yn llwyddiannus.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn meithrin ymdeimlad o gyflawniad drwy eu chwarae a'u dysgu.

Roedd y plant yn dangos diddordeb mewn gweithgareddau chwarae â phob un ohonynt yn gwenu wrth iddynt chwarae. Gwnaethant sôn wrthym am y gêm gardiau roeddent yn ei chwarae, a pham nad oedd eu ffrind yn y gêm bellach am ei fod wedi cael ei fwyta gan y 'siarc'. Roedd y plant yn brysur ac yn egnïol, ac roeddent yn mwynhau gosod y matiau chwarae rwber a rhoi gwahanol ddyluniadau jig-so yng nghanol pob sgwâr. Aeth y plant â'u doliau am dro mewn bygis, a phan ddaeth un o hyd i esgidiau gwisgo i fyny, daeth dau blentyn arall o hyd i rai y gallent eu gwisgo hefyd. Roeddent yn chwerthin pan roedd yr esgidiau'n clecian ar y llawr, wedyn yn rhoi'r bygis o'r neilltu ac yn dawnsio. Dewisodd y plant yn gyffrous eu hoff offeryn cerdd i'w chwarae, a chanu caneuon roeddent yn eu hoffi i gyd-fynd â'r gerddoriaeth, a oedd yn berfformiad hyfryd yn dangos eu talentau.

Mae'r plant yn llawn cymhelliant ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn dysgu sgiliau annibyniaeth.

Roedd y plant yn dysgu sgiliau annibyniaeth yn llwyddiannus, megis bwydo eu hunain a helpu i olchi eu hunain ar ôl bwyta. Roeddent yn defnyddio eu dychymyg; er enghraifft, roeddent wedi esgus gwneud paned o de i'r gwarchodwr ac wedyn dychwelyd i'r gornel gartref er mwyn gwneud diod arall iddi. Cânt gyfleoedd i dreulio amser yn yr awyr iach, naill ai yn yr ardd gaeedig yn y cefn neu wrth fynd am dro. Roedd llawer o gyfleoedd i'r plant gaffael iaith, wrth i'r gwarchodwr plant gael sawl sgwrs gyda nhw, ar eu lefel, ac roedd y plant yn ymateb yn gadarnhaol. Roeddent i gyd yn mwynhau bod yn greadigol wrth iddynt eistedd o amgylch bwrdd y gegin yn creu siapiau gan ddefnyddio toes chwarae o wahanol liwiau.

Mae'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth ac yn dysgu sgiliau drwy eu trefn ddyddiol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae gan y gwarchodwr plant gydberthnasau cadarnhaol â'r plant ac mae'n eu hadnabod yn dda. Mae'n sicrhau y caiff y plant eu cadw'n ddiogel ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu ystod o weithgareddau ac yn diwallu anghenion unigol y plant. Mae'n annog enghreifftiau o ryngweithio cadarnhaol ac yn fodel rôl da.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo arferion iach ac yn cadw'r plant yn ddiogel.

Roedd y gwarchodwr plant yn deall beth i'w wneud pe byddai ganddi unrhyw bryderon diogelu ynghylch plentyn fel yr amlinellwyd yn y polisi ysgrifenedig. Roedd ganddi gymhwyster Cymorth Cyntaf Pediatrig cyfredol sy'n ei galluogi i roi cymorth cyntaf brys, ac roedd polisi meddyginiaeth briodol ar waith. Roedd y gwarchodwr plant yn ymwybodol o ddiogelwch ac roedd y plant yn gwybod sut i adael yr adeilad mewn argyfwng yn sgil yr ymarferion tân rheolaidd a gynhelir. Roedd ganddi bolisi newid cewynnau boddhaol yn dangos ei bod yn dilyn canllawiau diweddar ar reoli croesheintio. Roedd bwydlen y gwarchodwr plant yn dangos ei bod yn hyrwyddo bwyta'n iach ac yn sicrhau bod y plant yn cael digon i'w yfed drwy ddarparu diodydd o ddŵr iddynt. Roedd yn hyrwyddo arferion hylendid da drwy sicrhau bod y bwrdd bwyta'n lân a thrwy annog y plant i olchi eu dwylo yn ôl yr angen. Cadwyd cofnodion damweiniau a digwyddiadau a gofynnwyd i'r rhieni lofnodi'r cofnodion i gadarnhau eu bod wedi cael gwybod.

Mae'r gwarchodwr plant yn llwyddo i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo ymddygiad derbyniol ac yn trin y plant â pharch.

Dilynodd y gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd y polisi rheoli ymddygiad, ac roeddent yn siarad â'r plant yn ysgafn ac yn gadarnhaol. Roeddent yn dathlu cyflawniadau'r plant, ac yn diolch iddynt am helpu neu am fod yn garedig i ffrind. Roedd y ddwy ohonynt yn fodelau rôl da ac yn siarad â'r plant ar eu lefel gan ddefnyddio iaith roedd y plant yn ei deall.

Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn gweithredu mewn ffordd gyson i reoli rhyngweithio cadarnhaol fel bod y plant yn gwbl ymwybodol o reolau ymddygiad.

## 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu'n dda â'r plant er mwyn hybu eu chwarae, eu dysgu a'u datblygiad ac mae'n adnabod y plant yn dda.

Roedd y gwarchodwr plant yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu a oedd yn galluogi'r plant i feithrin gwahanol sgiliau dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, roedd hi'n mynd â'r plant am dro i'r parc lleol, a gwelsom y plant yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau wedi'u harwain gan blant ac oedolion dan do, a oedd yn addas i oedran a chamau datblygu'r plant. Ystyriwyd arferion a dewisiadau unigol y plant gan ddangos bod y gwarchodwr plant yn eu hadnabod yn dda. Er enghraifft, roedd y gwarchodwr plant yn gwybod pan oedd y plant yn flinedig ac yn dilyn patrymau cysgu'r plentyn unigol.  Gwnaeth y gwarchodwr plant sicrhau bod gweithgareddau'n hyrwyddo chwarae a dysgu'r plant, ond ni chadwodd unrhyw gofnodion datblygu. Drwy wneud hynny, gallai'r gwarchodwr plant wella canlyniadau'r plant drwy olrhain eu cynnydd a defnyddio'r wybodaeth i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu chwarae a'u dysgu.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gweithgareddau diddorol i'r plant, ond gallai wella eu profiadau chwarae a dysgu drwy gadw cofnodion ysgrifenedig o'u datblygu.

# 3.Yr Amgylchedd

## Crynodeb

Darperir amgylchedd glân, diogel a chroesawgar i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu detholiad o adnoddau sy'n hybu chwarae a dysgu'r plant. Mae cynllun yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant.

## Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel i'r plant.

Roedd yr amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da ac roedd y safle yn ddiogel gan fod y prif ddrws wedi'i gloi ac roedd yr ardal awyr agored yn amgaeedig. Roedd asesiadau risg sylfaenol wedi'u cwblhau ar gyfer y safle a phan aeth y plant ar deithiau. Roedd y rhain yn dangos bod y gwarchodwr plant yn rheoli a, lle y bo'n bosibl, yn dileu'r risg o niwed i'r plant. Gosodwyd amddiffynnydd tân ar draws y llosgydd coed tân, ac esboniodd y gwarchodwr plant nad yw byth yn cael ei gynnau pan roedd y plant yn bresennol. Nid oedd y simnai wedi cael ei glanhau hyd yma, gan mai dyfais eithaf newydd ydoedd a phrin yr oedd yn cael ei ddefnyddio. Gwelsom y plant yn defnyddio dau fodel gwahanoi o gadeiriau uchel. Nid oedd modd gosod harnais â 4/5 pwynt gyda 'strap/gwregys' yn ei le ar un ohonynt, ac felly nad oedd yn addas i gadw plentyn yn ddiogel. Er na chafodd yr un plentyn ei adael heb oruchwyliaeth wrth ddefnyddio'r cadeiriau uchel, gofynnwyd i'r gwarchodwr lunio asesiad risg ysgrifenedig o'r mesurau diogelwch sydd ar waith ar gyfer y gadair uchel nad oedd modd ei gosod â'r harnais diogelwch priodol.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel i'r plant.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd glân ac addas i'r plant chwarae a dysgu.

Roedd y plant yn defnyddio llawr gwaelod yr eiddo ac roedd digon o le ar gael iddynt chwilota a symud o amgylch. Roedd yn hawdd iddynt gymryd rhan mewn chwarae awyr agored mewn gardd gaeedig, ac roeddent yn teimlo'n gartrefol, gan fod ffotograffau ohonynt yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau wedi'u harddangos yn y gegin. Gwnaeth y gwarchodwr plant sicrhau bod ganddi ardaloedd lle gallai gwahanol grwpiau o blant fwynhau chwarae gydag adnoddau sy'n addas i'w hoedran, a rhannodd yr ardaloedd hyn â giât diogelwch estynedig. Er enghraifft, roedd y plant hŷn am chwarae gyda'r gweithgaredd Playmobil, ac am nad oedd rhannau ohono'n addas ar gyfer y plant iau o bosibl, roedd y plant hŷn yn chwarae mewn ardal benodol, i ffwrdd o'r plant iau. Roeddent mewn golwg o hyd ac roedd y gwarchodwr plant yn eu goruchwylio wrth iddynt fwynhau'r gweithgaredd

roeddent am gymryd rhan ynddo yn ddiogel. Roedd pob ardal yn y safle yn lân, mewn cyflwr da ac yn canolbwyntio ar y plentyn.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd sy'n eu hannog i ddysgu.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu adnoddau sy'n addas i oedran y plant a'u camau datblygu.

Gwnaeth y gwarchodwr plant sicrhau fod digon o adnoddau ar gael er mwyn i'r plant ddewis weithgaredd o'u dewis. Roedd teganau'n addas ar gyfer oedran a chamau datblygu'r plant a oedd yn derbyn gofal, yn apelio iddynt, ac roeddent yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd dodrefn cyfforddus a chartrefol yn sicrhau y gallai'r plant ymlacio, ac roedd y plant iau yn ei ddefnyddio i helpu iddynt sefyll a symud o gwmpas. Roedd y plant yn gallu eistedd gyda'i gilydd o amgylch bwrdd y gegin yn ystod amseroedd prydau bwyd neu i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau pen bwrdd o'u dewis. Roedd yr ystafell ymolchi ar y llawr gwaelod yn hyrwyddo annibyniaeth y plant ac yn eu galluogi i ddefnyddio'r cyfleuster yn hawdd yn annibynnol neu gyda chymorth y gwarchodwr plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod adnoddau ac offer yn briodol ar gyfer camau datblygu'r plant.

# 4. Arwain a Rheoli

## Crynodeb

Mae gan y gwarchodwr plant rai systemau ar waith er mwyn rheoli'r gwasanaeth yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae angen rhai gwelliannau. Mae gan y gwarchodwr plant weithdrefnau ar waith er mwyn adolygu ei gwasanaeth bob blwyddyn ac mae ganddi gydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan y gwarchodwr plant systemau ar waith i reoli'r gwasanaeth yn briodol. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddi sicrhau ei bod yn gofalu am hyd at 6 o blant dan 5 oed ac yn diweddaru ei pholisi cwynion i gydymffurfio â rheoliad.

Roedd datganiad o ddiben y gwarchodwr plant yn glir ac yn sicrhau bod y rhieni'n cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn penderfynu a yw'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion nhw a'u plentyn. Fodd bynnag, roedd y datganiad o ddiben hefyd yn nodi'n glir y gallai ofalu am hyd at *'6'* o blant hyd at *'school age'*. Pan gyrhaeddom am hanner dydd, dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod hi a'i chynorthwyydd yn gofalu am '7' o blant hyd at oed ysgol tan 12.30am, a'i bod hefyd yn gofalu am blentyn arall, a oedd yn golygu bod 8 o blant dan 5 oed yn cael gofal. Felly, nid oedd y gwarchodwr plant yn glynu at y gymhareb gywir o blant y gall ofalu amdanynt, fel y nodwyd yn Safon 15.7 o'r *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir* ar gyfer plant hyd at 12 oed.

Roedd y gwarchodwr plant yn cadw'r cofnodion gofynnol, megis cofnodion presenoldeb dyddiol ar gyfer y plant a chofnodion damweiniau a digwyddiadau. Roedd y gwarchodwr plant yn cyflwyno llawer o wybodaeth ysgrifenedig i'r rhieni, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac yn deall nad oedd yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg yn llawn, hyd yma. Os bydd y gwarchodwr plant yn derbyn pryder neu gŵyn, rhaid i'r polisi hwnnw fod yn glir a chynnwys yr amserlenni ar gyfer rheoli mater o'r fath.

Mae angen i'r gwarchodwr plant wneud gwelliannau er mwyn iddi allu rheoli ei gwasanaeth yn effeithiol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan y gwarchodwr plant brosesau teg ar waith i werthuso'r gwasanaeth a gwneud gwelliannau.

Roedd y gwarchodwr plant wedi llunio adroddiad sylfaenol o ansawdd y gofal y gellid ei ddatblygu ymhellach i gynnwys rhagor o fanylion mewn perthynas ag adborth a dderbyniwyd gan y rhieni a'r plant, y gwelliannau a wnaed a'r rhai a gynlluniwyd ar gyfer y

dyfodol. Byddai hyn yn galluogi'r gwarchodwr plant i gael cofnod mwy clir ynglŷn â sut y gallai wneud newidiadau er mwyn symud y gwasanaeth yn ei flaen. Gwnaethom siarad ag un rhiant a ddywedodd wrthym fod ei phlentyn wedi setlo'n dda ac yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir. Gallai'r gwarchodwr plant wneud rhai newidiadau i'w hadroddiad a'u hadolygiad blynyddol o ansawdd y gofal er mwyn nodi unrhyw newidiadau sydd angen, eu gwneud yn glir a'u rhoi ar waith er lles y plant a'u rhieni.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli adnoddau yn briodol.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod teganau a chyfarpar yn addas i oedran y plant a'u camau datblygu. Roedd y gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd wedi cyflawni cwrs cymorth cyntaf pediatrig ac wedi trefnu mynd ar gwrs diogelwch bwyd yn y Flwyddyn Newydd, gan ddangos ei bod yn ymwybodol o'r arferion cyfredol er mwyn gwella ei gofal plant. Roedd gan y gwarchodwr plant, y cynorthwyydd a'r person dros 16 oed a oedd yn byw yng nghartref y gwarchodwr plant, dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), ac roeddent wrthi'n gwneud trefniadau â ni er mwyn adnewyddu'r rhain. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o ddogfennaeth mewn perthynas â ffeil staff y cynorthwyydd ar goll a rhoddwyd gwybod i'r gwarchodwr plant bod angen ceisio pob gwiriad addasrwydd a'i roi ar waith.

Rhaid i'r gwarchodwr plant gyflawni un gwelliant er mwyn cyflawni ei rôl mewn perthynas â rheoli adnoddau'n effeithiol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwarchodwr plant wedi sefydlu partneriaethau cadarnhaol gyda'r rhieni.

Roedd y rhieni, fel partneriaid, yn cael eu hysbysu'n llawn am lesiant eu plentyn gan fod y gwarchodwr plant yn rhoi manylion rheolaidd iddynt am y cyfnodau pan oedd eu plentyn o dan ei gofal. Hefyd, rhoddodd y rhieni wybodaeth ysgrifenedig ac ar lafar iddi am eu plentyn cyn i'r plentyn ddechrau, gan olygu bod y gwarchodwr plant yn gwybod hoff bethau a chas bethau'r plant, eu dewisiadau a'u trefn ddyddiol. Roedd y gwarchodwr plant yn mynd â'r plant am dro yn lleol, a oedd yn helpu i ehangu eu gwybodaeth am y byd o'u hamgylch ac yn eu galluogi i deimlo'n rhan o'r gymuned.

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio gyda'r rhieni er budd y plant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Rheoliad 16 – o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 - rhaid i'r gwarchodwr plant gynnal adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal. Dylai hwn gynnwys gwelliannau hyd yma, yn ogystal â'r rhai sydd wedi'u trefnu ar gyfer y dyfodol. Hefyd, rhaid cofnodi barn y plant a'u rhieni, yn ogystal â'r ffordd yr ymdriniwyd ag unrhyw faterion a godwyd ganddynt, os o gwbl. **Gwnaed y canlynol:**

Rheoliad 28 - o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 - rhaid i'r gwarchodwr plant gwblhau ffeil staff mewn perthynas â chyflogi ei merch fel cynorthwyydd. Yn dilyn yr arolygiad, anfonwyd gwybodaeth yn ymwneud â'r hyn roedd ei angen at y gwarchodwr plant. **Gwnaed y canlynol:**

### 5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Gwnaethom hysbysu'r gwarchodwr plant nad oedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau canlynol o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod y rhain yn effeithio ar lesiant a gofal plant, ac felly tynnwyd sylw'r gwarchodwr plant atynt er mwyn iddi ymdrin â nhw.

Rheoliad 9 (1)(a) o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 - rhaid i'r person cofrestredig barchu ei datganiad o ddiben, 'the number of the relevant children'. Nododd datganiad o ddiben y gwarchodwr plant, a dderbyniwyd ar 26 Gorffennaf 2017, y gallai ofalu am hyd at 6 o blant 'up to school age'. Felly, nid oedd wedi dilyn ein safonau ac nid oedd yn glynu at y nifer o blant y gallai ofalu amdanynt.

Rheoliad 34 – o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 - roedd angen i bolisi cwynion gwarchodwr plant gynnwys yr amserlenni ar gyfer ymdrin ag unrhyw bryder/cwyn pe bai un yn codi.

Rheoliad 28 - o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 - rhaid i'r gwarchodwr plant gwblhau ffeil staff yn llawn mewn perthynas â chyflogi cynorthwyydd. Yn dilyn yr arolygiad, anfonwyd gwybodaeth yn ymwneud â'r hyn roedd ei angen at y gwarchodwr plant.

### 5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y gallai'r gwarchodwr plant wneud y canlynol;

- Cynnal cofnodion datblygu ar gyfer y plant dan 8 oed, a chofnodi ei sylwadau ar gynnydd y plant er mwyn cynllunio ar gyfer eu chwarae a'u dysgu yn y dyfodol;

- datblygu'r adroddiad o ansawdd y gofal i gynnwys rhagor o fanylion a'i wneud yn haws i'w ddarllen, a

- chwblhau asesiad risg ar gyfer y gadair uchel sydd heb harnais â 4/5 pwynt i ddangos sut y caiff y plant eu cadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r gadair uchel.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 14 Tachwedd 2018 rhwng 12.00am a 14.35pm.

Gwnaethom y canlynol:

- Archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar y plant a'r gofal a roddwyd;
- siarad â'r gwarchodwr plant, y plant, un rhiant a'r cynorthwyydd;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a'r adnoddau;
- ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gan y gwarchodwr plant yn ei Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth; yr Adroddiad ar Ansawdd y Gofal a'r Datganiad o Ddiben;
- rhoi adborth ar ein canfyddiadau i'r gwarchodwr plant.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Bethan Evans** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **10** |
| **Ystod oedran y plant** | **Geni hyd at 12 oed** |
| **Oriau agor** | **O ddydd Llun i ddydd Gwener – rhwng 08.00 a 17.30 (gall yr oriau hyn amrywio ychydig er mwyn bodloni anghenion y rhieni)** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC** | **17 Tachwedd 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **14 Tachwedd 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar hyn o bryd ond mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymreig.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |